UK Longitudinal Linkage Collaboration

Deall Data Astudiaethau Poblogaeth Hydredol a'r Gyfraith

# Cyfreithiau Diogelu Data'r DU

**(Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU – RhDDC DU, Deddf Diogelu Data 2018 – DDD)**

Am ragor o wybodaeth
**ukllc.ac.uk/lps-data-and-the-law**

Mae deddfau Diogelu Data'r DU yn rheoleiddio defnyddio **data personol** (data a all beri adnabod rhywun) ym mhob maes defnyddio data. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau, busnesau, a'r llywodraeth yn ogystal ag ymchwil tan arweiniad prifysgolion a'r GIG.

## Eich hawliau safonol o dan y cyfreithiau hyn yw:

- **cael gwybod am sut ddefnyddir eich data**
- **medru cael mynediad at eich data**
- **cael cywiro eich data**
- **gofyn am ddinistrio eich data**
- **cyfyngu ar ddefnyddio'ch data**
- **gwrthwynebu'r modd y defnyddir eich data**
- **symud eich data at sefydliad arall**
- **hawliau ynghylch penderfynu awtomataidd, gan gynnwys proffilio**

### Nid yw'r holl hawliau hyn yn cynnwys

**Pam?** Oherwydd o'u gweithredu, gallant beri niwed i ymchwil y presennol a'r dyfodol.

### Mae eithriadau ar gyfer ymchwil

**Pam?** Fel y gall data ymchwil barhau i wella ac achub bywydau.

## Rhaid i astudiaethau poblogaeth hydredol ddiogelu cyfrinachedd, integredd ac argaeledd data personol.

**Cyfrinachedd**
Cedwir eich data'n gyfrinachol ac yn ddiogel, nid oes mynediad heb awdurdod ac nid yw ymchwilwyr ond yn cael mynediad at ddata a ffugenwyd.1

**Integredd**
Mae data yn gywir, yn gyson, yn ddibynadwy, ac ar gyfer ymchwil yn unig. Rhaid i'ch astudiaeth roi i chi wybodaeth ynghylch sut ddefnyddir eich data.

**Argaeledd**
Mae ymchwilwyr cymeradwy yn ymgeisio am fynediad at ddata, a hyfforddir yr un ymchwilwyr i weithio â data. Os cânt fynediad, rhoddir iddynt ar y lleiaf o'r data angenrheidiol ar gyfer eu project.

1 Data lle mae gwybodaeth a all beri adnabod rhywun wedi'i dynnu allan a'i ddisodli gan ddynodydd ymchwil (DY) neu "ffugenw", sydd fel arfer yn hap-godau disynnwyr.

Gwybodaeth gywir ar adeg ei chyhoeddi (f1, Gorffennaf 2024).
Os dymunwch holi am sut mae eich data yn gwneud gwahaniaeth ar gyfer ymchwil, cysylltwch â'ch tîm astudiaeth yn uniongyrchol, os gwelwch yn dda.

Arweinir UK LLC gan
University of Bristol
The University of Edinburgh

Ariennir UK LLC gan
UK Research and Innovation
ESRC and MRC

Ariennir y gyfres inffograffig
UK Health Data Research Alliance

UK Longitudinal Linkage Collaboration

Deall Data Astudiaethau Poblogaeth Hydredol a'r Gyfraith

# Cyfreithiau Diogelu Data'r DU

**(Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU – RhDDC DU, Deddf Diogelu Data 2018 – DDD)**

Am ragor o wybodaeth
**ukllc.ac.uk/lps-data-and-the-law**


Mae deddfau Diogelu Data'r DU yn rheoleiddio defnyddio **data personol** (data a all beri adnabod rhywun) ym mhob maes defnyddio data. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau, busnesau, a'r llywodraeth yn ogystal ag ymchwil tan arweiniad prifysgolion a'r GIG.

## "Dwi â rhan mewn astudiaeth boblogaeth hydredol2, sut mae eithriadau ar gyfer ymchwil tan ddeddfau Diogelu Data'r DU yn effeithio ar fy

"**Ni all fy astudiaeth ganiatáu dileu data, gan y gallai effeithio'n ddifrifol ar** ymchwil blaenorol a phresennol. Ond mae agos pob un astudiaeth boblogaeth hydredol yn rhoi i chi **hawl atal defnyddio eich data o'r adeg** y dywedwch wrthynt mai dyna eich dymuniad."




"Mae **eithriadau** i'm hawliau **yn dibynnu ar yr astudiaeth** boblogaeth hydredol. Nid ydynt yn digwydd yn awtomatig: bydd fy astudiaeth yn ystyried yn ofalus pa eithriadau sy'n berthnasol."



"**Ni allaf** beri cywiro fy nata astudiaeth ond gallaf ofyn am **ddiweddaru fy enw a'm cyfeiriad.**



"**Ni allaf drosglwyddo** fy **nata** astudiaeth i astudiaeth arall, gan y gallent gofnodi data'n wahanol a chasglu gwahanol fathau o ddata, gan wneud hyn yn broses gymhleth"



"**Efallai na fydd modd cael gafael ar fy nata astudiaeth unigol.** Mae'n codi cwestiynau moesol a gall greu gogwydd gwyddonol3."



### Mae Astudiaethau Poblogaeth Hydredol

- **Yn parchu** eich hawl i gael gwybodaeth
- **Yn caniatáu** i chi gyfyngu ar y modd y defnyddir eich data
- **Yn rhoi'r gorau** i gasglu os gwrthwynebwch

2 Rhywun sydd o'i wirfodd yn ymuno ag astudiaeth lle cesglir ei ddata personol tros gyfnod at ddiben ymchwil hydredol. Llenwi holiaduron neu fynychu clinigau ar gyfer mesur uchder neu bwysau, neu ddarparu samplau gaed, er enghraifft.

3 Pan fo'r modd y cynhelir ymchwil yn medru arwain at ganlyniadau nad ydynt yn wrthrychol nac yn gywir.

Gwybodaeth gywir ar adeg ei chyhoeddi (f1, Gorffennaf 2024).
Os dymunwch holi am sut mae eich data yn gwneud gwahaniaeth ar gyfer ymchwil, cysylltwch â'ch tîm astudiaeth yn uniongyrchol, os gwelwch yn dda

Arweinir UK LLC gan
University of Bristol
The University of Edinburgh

Ariennir UK LLC gan
UK Research and Innovation
ESRC and MRC

IAriennir y gyfres inffograffig gan
UK Health Data Research Alliance